

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefn Tynnu Cymhwyster yn Ôl

Cwmpas a Diben y Weithdrefn

Ategir y weithdrefn hon gan weledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysfawr a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yrwyr allweddol Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd hyn yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Cynlluniwyd y weithdrefn hon i ddiogelu buddiannau dysgwyr pe bai'r Coleg yn tynnu cymhwyster yn ôl o'i ganolfan, naill ai'n wirfoddol neu ar gyfarwyddyd y sefydliad dyfarnu. Bydd y Coleg yn dilyn unrhyw weithdrefn sydd wedi'i hamlinellu gan y sefydliad dyfarnu bob tro.

Rhesymau dros dynnu cymwysterau'n ôl yn wirfoddol

Ar brydiau, gall y Coleg benderfynu tynnu cymhwyster yn ôl o'i ganolfan. Byddai hyn fel arfer am un o'r rhesymau canlynol:

- Diffyg galw diwydiannol am y cymhwyster
- Diffyg cofrestradau dysgwyr
- Newid yn y sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiant gan arwain at gymhwyster yn anaddas at ei bwrpas
- Sicrhau Ansawdd Mewnol
- Symud safle neu broblem arall gydag adnoddau

Gweithdrefn

- Yr Uwch Dîm fydd yn penderfynu tynnu cymhwyster yn ôl. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud ar ôl ymgynghori â Phennaeth yr Adran perthnasol a staff perthnasol.
- Bydd y Coleg yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn perthynas â chymhwyster y mae'n ei dynnu'n ôl. Bydd dysgwyr presennol yn gallu cwblhau cymhwyster y maent wedi cofrestru arno, neu byddant yn cael rhybudd rhesymol i gwblhau'r cymhwyster. Bydd

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	15 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	15 Medi 24

trefniadau pontio, ynghyd â rhestr o ddarparwyr addysg eraill, yn cael eu cyhoeddi a'u darparu i ddysgwyr, canolfannau a chyflogwyr, o gymhwyster sydd i'w dynnu'n ôl.

- Bydd y Coleg yn sicrhau bod y gweithdrefnau a ddilyniir yn unol â'r Sefydliad Dyfarnu perthnasol ac yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Cyffredinol.

Tynnu cymwysterau'n ôl gan Sefydliad Dyfarnu

- Os bydd Sefydliad Dyfarnu yn tynnu cymhwyster yn ôl o'r Coleg, bydd yn:
 - Rhoi arweiniad effeithiol i'r Coleg
 - Rhannu unrhyw wybodaeth i'r Coleg a all, at ddibenion y ddarpariaeth honno, y Coleg ei gwneud yn rhesymol ofynnol i Sefydliad Dyfarnu ei darparu.
- Bydd y Coleg yn dilyn yr un weithdrefn a amlinellir uchod er mwyn diogelu buddiannau ei ddysgwyr.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo: 16 Medi 2016

Cymeradwywyd gan: Bwrdd Safonau Ansawdd

Dyddiad adolygu: 15 Medi 2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Prif Gynorthwydd Gwaith, Addysgu a Dysgu

Arweinydd Gweithredol: Is-Bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr

Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	15 Medi 22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	15 Medi 24